

## Polisi Iaith Gymraeg

### 1. Cyflwyniad

- 1.1 Ers 31 Gorffennaf 2020, rwyf wedi ymrwmo i gydymffurfio â [Safonau'r Gymraeg](#) ('y Safonau'), fel y'u hamlinellwyd gan Lywodraeth Cymru dan Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Rwyf wedi ymrwmo i gydymffurfio â'r rhan fwyaf o'r Safonau erbyn 31 Ionawr 2021. Ceir dyddiadau cydymffurfio diweddarach mewn rhai amgylchiadau.
- 1.2 Egwyddor allweddol y Safonau, a'r egwyddor sy'n sail i'm hagwedd i at y Gymraeg, yw na chaiff ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, yn y gweithle ac wrth ddelio â'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill.
- 1.3 Mae'r Safonau wedi'u cyhoeddi ar fy ngwefan, ac yn pennu dyletswyddau cyfreithiol yr Ombwdsmon. Mae'r polisi hwn yn amlinellu **sut** y bwriadaf gydymffurfio â'r dyletswyddau cyfreithiol dan y Safonau, a bwriedir iddo roi manylion hawdd eu canfod am y gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael. Er fy mod, yn y Polisi hwn, wedi ceisio adlewyrchu gofynion y Safonau yn gywir, y Safonau biau'r gair olaf a hwy sy'n amlinellu fy nyletswyddau cyfreithiol diffiniol.
- 1.4 Mae'r polisi hwn yn amlinellu hefyd sut y byddaf yn hwyluso ac yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn fewnol. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am drefniadau ar gyfer cyfieithu yn ogystal â'n darpariaeth ar gyfer dysgu'r iaith a'r adnoddau sydd ar gael.

### 2. Cyflenwi gwasanaethau

#### 2.1 Gohebiaeth

- 2.1.1 Croesawaf dderbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Fy nhrefn arferol fydd, pan ysgrifennir ataf yn Gymraeg, byddaf yn ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb). Bydd fy nharged amser ar gyfer ateb yr un fath ag ar gyfer ateb llythyrau a ysgrifennir yn Saesneg.
- 2.1.2 Lle byddaf wedi derbyn gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg, cymeraf mai honno yw'r iaith a ddewisir. Sicrhaf fod pawb sy'n dod ar alw gwasanaethau'r Ombwdsmon yn ymwybodol fod gwasanaethau ar gael yn Gymraeg a Saesneg.
- 2.1.3 Byddaf yn gohebu'n ddwyieithog ag unigolion hyd nes byddaf yn gwybod beth yw eu dewis iaith. Pan anfonaf fersiwn Cymraeg a fersiwn Saesneg o'r un ohebiaeth, ni fyddaf yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 2.1.4 Bydd papurau a anfonaf gyda llythyrau dwyieithog yn ddwyieithog, pan fo hynny ar gael. Bydd papurau a anfonaf gyda llythyrau Cymraeg yn Gymraeg neu'n

ddwyieithog, pan fo hynny ar gael. Gallai fod eithriadau mewn amgylchiadau lle, er enghraifft, yr ysgrifennwyd y papurau ategol gan drydydd parti a/neu lle nad oes fersiwn Cymraeg yn bodoli. Bydd hyn yn wir am ohebiaeth ebost yn ogystal â gohebiaeth bapur.

- 2.1.5 Pan gychwynnaf ohebu ag unigolyn sydd heb gysylltu â mi'n flaenorol, byddaf yn canfod a ydynt yn dymuno gohebu yn Gymraeg. Os ydynt, fe gadwaf gofnod o'u dymuniad a chyfathrebu â nhw yn Gymraeg o hynny ymlaen.
- 2.1.6 Lle ceir mwy nag un achwynydd, fy nhrefn arferol yw gohebu â'r prif achwynydd yn ei (d)dewis iaith. Fodd bynnag, os anfonaf ohebiaeth wedi'i gyfeirio at ddau unigolyn sy'n aelodau o'r un aelwyd am y tro cyntaf, fe nodaf y caiff y naill a'r llall ddewis derbyn gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. Fe gadwaf gofnod o'u dymuniad a chyfathrebu â nhw yn Gymraeg neu yn Saesneg, fel y bo'n briodol, o hynny ymlaen.
- 2.1.7 Fe gysylltaf â chyrrff perthnasol yn fy awdurdodaeth yn rheolaidd, i sefydlu a ydynt yn dymuno gohebu yn Gymraeg. Os ydynt, fe gadwaf gofnod o'u dymuniad a chyfathrebu â nhw yn Gymraeg o hynny ymlaen.
- 2.1.8 Pan anfonaf ohebiaeth safonol neu gylchlythyr at sawl derbynnydd, bydd yn ddwyieithog.
- 2.1.9 Bydd pob gohebiaeth Cymraeg copi caled (gan gynnwys gohebiaeth ebost) a anfonaf yn cario llofnod electronig dwyieithog.

## **2.2 Ar y ffôn**

- 2.2.1 Fy nhrefn arferol yw sicrhau y gall y cyhoedd siarad yn Gymraeg neu Saesneg wrth ddelio â'm swyddfa dros y ffôn. Pan fydd rhywun yn fy ngalw ar fy mhrif rif ffôn, cyfarchaf yr unigolyn yn Gymraeg.
- 2.2.2 Bydd y rhifau ffôn ar gyfer y gwasanaeth Cymraeg yr un fath â'r rhifau ar gyfer y gwasanaeth hwnnw yn Saesneg.
- 2.2.3 Bydd pobl sy'n ffonio'r Tîm Asesu Cwynion (h.y., gwasanaeth rheng flaen y swyddfa) yn clywed cyfarchiad dwyieithog awtomataidd gyda dewis i fwrw ymlaen yn Gymraeg neu yn Saesneg. Os bydd y galwr yn dewis siarad Cymraeg, anfonir yr alwad at aelod staff Cymraeg ei iaith i ddelio â'r ymholiad. Bydd fy mhrif rif ffôn yn defnyddio neges ddwyieithog ar ei beiriant ateb.
- 2.2.4 Os bydd galwr yn ffonio un o linellau uniongyrchol fy swyddfa ac yn dymuno siarad am gŵyn yn erbyn darparwr gwasanaeth neu gynghorydd yn Gymraeg, ond bod y sawl sy'n derbyn yr alwad yn methu gwneud hynny, bydd yn trosglwyddo'r alwad i gydweithiwr Cymraeg ei iaith sy'n gymwys i

ddelio â'r ymholiad.

2.2.5 Os nad yw'r alwad yn ymwneud â chwyn yn erbyn darparwr gwasanaeth neu gynghorydd, ymdrinnir â'r alwad yn y Gymraeg hyd nes y daw angen i drosglwyddo'r alwad i aelod staff arall nad yw'n medru'r Gymraeg (h.y. os nad oes aelod staff Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar y pwnc penodol dan sylw).

2.2.6 Os bydd fy swyddfa i'n ffonio unigolyn am y tro cyntaf, byddwn yn gofyn a ydyw'r person hwnnw'n dymuno cael galwadau ffôn gennym yn Gymraeg. Os dywed mai dyna yw'r dymuniad, byddwn yn cadw cofnod o hynny ac yn cynnal galwadau ffôn gyda'r unigolyn o hynny ymlaen yn Gymraeg.

## **2.3 Cyfarfodydd**

2.3.1 Pan anfonaf wahoddiad i gyfarfod neu ddigwyddiad cyhoeddus, fe ofynnaf i bawb sy'n cael gwahoddiad i fod yn bresennol neu i siarad a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod. Fe wnaaf eu hysbysu hefyd y byddaf yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg i'r diben hwnnw os oes gofyn.

2.3.2 Os byddaf wedi cael gwybod fod rhywun a wahoddwyd i gyfarfod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, fe drefnaf fod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod hwnnw (oni bai y gellir cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd).

2.3.3 Bydd pob gwaith papur perthnasol i gyfarfodydd cyhoeddus a drefnaf (e.e. gwahoddiadau a hysbysebion) yn ddwyieithog. Caiff unrhyw unigolyn gyfrannu mewn cyfarfod cyhoeddus a drefnwyd gennyf i yn Gymraeg a darperir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd i hwyluso hyn. Ar ddechrau'r cyfarfod, cyhoeddaf ar lafar wrth bawb sy'n bresennol fod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg a bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael.

## **2.4 Cyhoeddiadau Cyffredinol**

2.4.1 Pan gyhoeddaf fersiwn Cymraeg a fersiwn Saesneg o ddogfen ar wahân i'w gilydd, fe sicrhaf fod y fersiwn Saesneg yn nodi'n glir fod y ddogfen ar gael yn Gymraeg hefyd.

2.4.2 Bydd unrhyw ddogfennau cyhoeddusrwydd neu arweiniol (er enghraifft, llyfrynau, taflenni, pamffledi neu gardiau) a gyhoeddaf i roi gwybodaeth i'r cyhoedd ar gael yn Gymraeg.

2.4.3 Fy nhrefn arferol fydd cyhoeddi deunydd cyffredinol o'r math a ddisgrifir uchod gyda'r fersiynau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd mewn un ddogfen.

- 2.4.4 Os bydd angen cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (er enghraifft, lle byddai un ddogfen gyda'r ddwy iaith yn rhy hir neu swmpus), bydd y ddau fersiwn o'r un maint ac ansawdd. Fe sicrhaf fod y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd ac yr un mor hawdd eu cael. Bydd y naill fersiwn a'r llall yn datgan yn glir fod y deunydd ar gael yn yr iaith arall.
- 2.4.5 Os na ddarperir y ddogfen yn rhad ac am ddim, ni fydd pris dogfen ddwyieithog yn fwy na phris cyhoeddiad mewn un iaith yn unig. Bydd pris fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân yr un fath. Bydd hyn yn wir hefyd am gyhoeddiadau a ddarperir yn electronig ar fy ngwefan, ar CD-ROM neu fel arall.
- 2.4.6 Pan gynhaliat arolwg cyhoeddus, fe sicrhaf y bydd pob agwedd o'r arolwg yn ddwyieithog ac y gall ymatebwyr ymateb yn Gymraeg os dymunant.
- 2.4.7 Pan wahoddaf y cyhoedd i ymateb imi mewn perthynas â busnes fy swyddfa, er enghraifft, wrth gynnal ymgynghoriad, fe wnaaf hynny'n ddwyieithog. Fe ddywedaf yn glir fy mod yn croesawu derbyn ymatebion yn Gymraeg.
- 2.4.8 Bydd pob polisi, strategaeth, adroddiad blynyddol, cynllun corfforaethol, canllawiau a chod ymarfer a gyhoeddaf i'r cyhoedd ar gael yn y ddwy iaith.

## **2.5 Datganiadau i'r wasg a chysylltu â'r cyfryngau**

- 2.5.1 Pan gyhoeddaf ddatganiad i'r wasg a'r cyfryngau darlledu yng Nghymru, fe'i cyhoeddaf yn ddwyieithog. Pan ymatebaf i ymholiad penodol gan y cyfryngau, gwnaf hynny yn iaith yr ymholiad.
- 2.5.2 Pan gyhoeddir datganiadau i'r wasg ar fy ngwefan, fe'u cyhoeddaf yn Gymraeg a Saesneg.
- 2.5.3 Lle bo modd, fe sicrhaf fod siaradwyr Cymraeg ar gael i gynnal cyfweiliadau â'r wasg Gymraeg a'r cyfryngau darlledu Cymraeg.

## **2.6 Gwefan a Chyfryngau Cymdeithasol**

- 2.6.1 Mae fy ngwefan a'i thudalennau rhyngweithiol ar gael yn ddwyieithog. Lle mae tudalen Gymraeg ar y we yn cyfateb i dudalen Saesneg, nodaf yn glir fod y dudalen ar gael hefyd yn y Gymraeg a darparaf ddolen uniongyrchol i'r dudalen Gymraeg gyfatebol.
- 2.6.2 Pan gyhoeddaf gyhoeddiadau Saesneg a gynhyrchwyd gan fy swyddfa ar fy ngwefan, cyhoeddir y fersiwn Cymraeg ar yr un pryd.
- 2.6.3 Pan ddefnyddiaf gyfryngau cymdeithasol, ni wnaaf drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Gweithredaf un cyfrif dwyieithog i bob sianel.

2.6.4 Pan fydd rhywun yn cysylltu â mi yn Gymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol, fe atebaf yn Gymraeg (lle bo angen ateb).

## **2.7 Ffurflenni a deunydd eglurhaol cysylltiedig**

2.7.1 Bydd pob ffurflen a deunydd eglurhaol cysylltiedig a ddarparaf i'r cyhoedd (er enghraifft, ffurflen gwyno) ar gael yn ddwyieithog. Mae hyn yn cynnwys ffurflenni rhyngweithiol a gyhoeddir ar fy ngwefan.

2.7.2 Fy nhrefn arferol fydd sicrhau y cyhoeddir y fersiynau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd mewn un ddogfen. Ond lle nad yw hyn yn bosibl (er enghraifft, lle byddai un ddogfen yn rhy hir neu swmpus), bydd y ddau fersiwn o'r un maint ac ansawdd. Fe sicrhaf hefyd fod y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd ac yr un mor hawdd eu cael. Bydd y naill fersiwn a'r llall yn datgan yn glir fod y deunydd ar gael yn yr iaith arall.

2.7.3 Ni fydd cwblhau'r ffurflen Gymraeg yn arwain at oedi. Bydd y fersiwn Saesneg o'r ffurflen yn nodi'n glir fod y ffurflen ar gael yn Gymraeg hefyd.

2.7.4 Pan fydd cyrff eraill yn dosbarthu ffurflenni ar fy rhan, fe sicrhaf y gwnânt hynny yn unol â'r uchod.

## **2.8 Hunaniaeth Gorfforaethol ac Arwyddion**

2.8.1 Rwyf wedi arddel hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog. Bydd fy enw, manylion cysylltu, logo, sloganau a manylion safonol eraill yn ymddangos yn Gymraeg a Saesneg ar bob deunydd sy'n dangos fy hunaniaeth gorfforaethol. Mae hyn yn cynnwys fy llythyrau a deunyddiau fel cardiau busnes, bathodynau adnabod, cardiau mynediad, tocynnau, cardiau cydnabod, slipiau cyfarch a gwahoddiadau.

2.8.2 Pan godaf arwydd neu hysbysiad newydd (gan gynnwys arwyddion dros dro) y tu allan i'm swyddfeydd neu mewn manau cyhoeddus cysylltiedig, bydd yr arwydd yn ddwyieithog (a'r Gymraeg a'r Saesneg ar yr un arwydd neu ar ddau arwydd ar wahân). Fe sicrhaf na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg a bod y testun Cymraeg mewn safle sy'n ei wneud yn fwyaf tebygol o gael ei ddarllen yn gyntaf. Fe sicrhaf hefyd fod y testun Cymraeg ar arwyddion yn gywir, o ran ystyr a mynegiant.

## **2.9 Gwasanaeth y dderbynfa**

2.9.1 Nid oes gennyf wasanaeth derbynfa wedi'i staffio. Ond mae arwydd i'w weld yn fy nerbynfa sy'n datgan bod croeso i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y dderbynfa. Os bydd rhywun yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, fe drefnaf i swyddog addas Cymraeg ei iaith fod yn bresennol.

## **2.10 Gwahoddiadau i Dendro**

2.10.1 Pan gyhoeddaf wahoddiadau i dendro am gontract, gwnaf hynny'n ddwyieithog.

2.10.2 Ni fydd tendr a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg. Yn enwedig, bydd y dyddiad cau ar gyfer derbyn tendrau yr un fath i dendrau a gyflwynir yn Gymraeg a Saesneg a bydd y gyfradd amser ar gyfer hysbysu'r sawl sy'n tendro am fy mhenderfyniad yr un fath.

2.10.3 Fe nodaf yn glir yn y gwahoddiad y gellir cyflwyno tendrau yn Gymraeg ac na fydd tendr a gyflwynir yn Gymraeg yn cael triniaeth fymryn yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg.

2.10.4 Os bydd angen cyfweld y tendrwr fel rhan o'm hasesiad o'r tendr, fe ofynnaf i'r person a ydyw'n dymuno cael y cyfweliad yn y Gymraeg, a darparaf wasanaeth cyfieithu ar y pryd i'r diben hwnnw os bydd angen ac oni bai fod modd cynnal y cyfweliad yn Gymraeg heb fod angen gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.

2.10.5 Pan hysbysaf dendrwr am fy mhenderfyniad ynglŷn â thendr, fe wnaif hynny yn Gymraeg os cyflwynwyd y tendr yn Gymraeg.

## **3 Gwneud Polisiâu**

3.1 Wrth lunio polisi newydd, neu adolygu neu ddiwygio polisi sy'n bodoli, fe asesaf effaith gadarnhaol a negyddol y polisi newydd neu ddiwygiedig o ran:

- cyfleon i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a
- trin y Gymraeg yn ddim llai ffafriol na'r Saesneg.

3.2 Fe ystyriaf hefyd sut y dylid llunio polisi newydd, neu adolygu neu ddiwygio polisi sy'n bodoli, mewn modd sy'n sicrhau'r effaith negyddol leiaf a'r effaith gadarnhaol fwyaf o ran:

- cyfleon i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a
- trin y Gymraeg yn ddim llai ffafriol na'r Saesneg.

- 3.3 Dilynaf yr egwyddorion hyn hefyd wrth gyhoeddi unrhyw ddogfennau ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi ac wrth gomisiynu neu wneud gwaith ymchwil a fwriedir i'm cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi.
- 3.4 Bydd yr ystyriaethau hyn yn digwydd fel rhan o'm Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb ar bolisiau newydd a rhai sy'n bodoli eisoes. Mae fy Mholisi a Gweithdrefn Asesu Effaith ar Gydraddoldeb ar gael ar fy ngwefan.

## **4 Defnyddio'r Gymraeg yn fewnol**

### **4.1 Recriwtio**

4.1.1 Asesir pob swydd yn fy swyddfa i benderfynu a yw'r Gymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol ar gyfer y swydd honno.

4.1.2 Bydd pob hysbyseb recriwtio staff yn ddwyieithog.

### **4.2 Dogfennau a gohebiaeth gyda'r staff**

4.2.1 Gall unrhyw aelod staff gael eu contract neu ohebiaeth ynglŷn â'u cyflogaeth, sydd wedi'i chyfeirio atyn nhw'n bersonol, yn Gymraeg os dymunant.

4.2.2 Pan gynigias swydd newydd i unigolyn, gofynnaf i'r unigolyn hwnnw neu honno a ydyw'n dymuno cael y contract cyflogaeth yn Gymraeg. Os mai dyna ddymuniad yr unigolyn, fe ddarparaf y contract yn Gymraeg.

4.2.3 Gofynnaf i bob aelod staff wrth benodi a ydyw'n dymuno derbyn unrhyw ohebiaeth bapur ynglŷn â'i gyflogaeth neu ei chyflogaeth, ac sydd wedi'i chyfeirio ato ef neu ati hi'n bersonol, yn Gymraeg. Gall pob aelod staff newid y dewis ieithyddol hwn unrhyw bryd.

4.2.4 Gofynnaf hefyd i bob aelod staff a ydyw'n dymuno derbyn unrhyw ffurflenni sy'n cofnodi ac yn awdurdodi'r canlynol yn Gymraeg:

- Gwyliau blynyddol
- Absenoldebau o'r gwaith
- Oriau gweithio hyblyg

4.3 Bydd fy system ar gyfer cofnodi'r uchod ar gael yn Gymraeg i'r aelodau staff hynny sydd wedi nodi eu dymuniad i'r uchod gael eu cofnodi a'u hawdurdodi yn Gymraeg.

#### **4.4 Polisiâu Staff**

- 4.4.1 Bydd pob polisi sy'n ymwneud â chyflogaeth a materion hanfodol fel Iechyd a Diogelwch ar gael yn Gymraeg a Saesneg.
- 4.4.2 Gall pob aelod staff gyflwyno cwynion yn Gymraeg neu Saesneg ac ymdrinnir â phob achos yn newis iaith yr aelod staff.
- 4.4.3 Mae gan bob aelod staff yr hawl i ddelio ag unrhyw faterion disgyblu neu gwynion yn Gymraeg neu Saesneg.
- 4.4.4 Amlinellir y prosesau perthnasol yn fy Mholisi Disgyblu a'm Polisi Cwynion.

#### **4.5 Hyfforddiant**

- 4.5.1 Rwy'n cadw cofnod o sgiliau Cymraeg y staff, a gwblheir yn flynyddol.
- 4.5.2 Anogaf staff i fynd am hyfforddiant i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg. Mae'r hyfforddiant hwn ar gael yn ystod oriau gwaith i staff sy'n cael gwersi Cymraeg sylfaenol ac, i rai sy'n rheoli eraill, i gael hyfforddiant ar ddefnyddio'r Gymraeg yn eu rôl fel rheolwyr.
- 4.5.3 Darperir hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i bob aelod o staff. Bydd hyn yn codi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd yr iaith Gymraeg a'i hanes. Rhoddir hyfforddiant sefydlu i aelodau staff newydd, sy'n cynnwys modiwl a gynlluniwyd i godi eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg.
- 4.5.4 Gall bob aelod o staff gael yr hyfforddiant a ddarparaf neu a drefnaf, ar faterion cyflogaeth allweddol, ymdrin â'r cyhoedd, a iechyd a diogelwch, trwy gyfrwng y Gymraeg os dymunant.
- 4.5.5 Fe gadwaf gofnod blynyddol o nifer yr aelodau staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a ddarparwyd yn Gymraeg a chanran y nifer o staff a fynychodd y cwrs a ddewisodd y fersiwn Cymraeg.
- 4.5.6 Cyn trefnu'r digwyddiad hyfforddi, gofynnir i staff a fyddent yn dymuno cael yr hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg. Gofynnir i staff hefyd, pan gânt eu penodi, a ydynt yn dymuno cael unrhyw ohebiaeth bapur sy'n ymwneud â'u hanghenion neu ofynion hyfforddi a'u targedau perfformiad yn Gymraeg. Gall staff newid y dewis hwn unrhyw bryd.



## 4.6 Adnoddau

- 4.6.1 Mae tudalen hafan yr Hwb ar gael yn Gymraeg. Mae'r rhannau o'r Hwb sy'n berthnasol i'r defnydd o'r Gymraeg, cwynion gan staff, a materion cyflogaeth, ar gael yn Gymraeg. Lle mae tudalen Gymraeg yn cyfateb i dudalen Saesneg, nodaf yn glir fod y dudalen ar gael hefyd yn y Gymraeg a darparaf ddolen uniongyrchol i'r dudalen Gymraeg gyfatebol.
- 4.6.2 Mae adnoddau a deunyddiau i gefnogi staff i ddefnyddio'r Gymraeg, Safonau'r Gymraeg a dysgu Cymraeg ar gael ar yr Hwb.
- 4.6.3 Rhaid i bob staff ddefnyddio templed dwyieithog ar gyfer eu llofnod ebost a'u neges 'allan o'r swyddfa'. Mae'r templedi hyn i'w cael yn y ddogfen gyfarwyddiadau '[Safonau'r Gymraeg – Camau gweithredu i'r staff](#)', sydd ar gael i staff ar yr Hwb.
- 4.6.4 Mae laniardau Iaith Gwaith ar gael gan y Gwasanaethau Corfforaethol. Gall aelodau staff sy'n siarad Cymraeg wisgo'r rhain i ddangos eu bod yn siarad yr iaith.

## 4.7 Technolegau Cymraeg

- 4.7.1 I helpu staff ddefnyddio'r Gymraeg yn gywir ac yn hyderus, mae set o feddalwedd ar gael i bawb ar gais. Mae'n cynnwys:
- Cysill – gwiriwr sillafu Cymraeg;
  - Cysgeir – geiriadur Cymraeg-Saesneg, Saesneg-Cymraeg; a
  - gosodiad Cymraeg Microsoft Office – gwiriwr sillafu Cymraeg

## 4.8 Cyfieithiadau

- 4.8.1 Dylid gwneud ceisiadau am gyfieithiadau i'r Swyddog Cyfathrebu a Chyfieithu. Dylai staff gyflwyno ceisiadau drwy'r Ffurflen Gais am Gyfieithiad ar yr Hwb, gan sicrhau eu bod yn nodi'r dyddiad pryd y mae'n rhaid cael y cyfieithiad. Os yw'r cais yn un brys sydd angen ei gwblhau o fewn y ddeuddydd nesaf, dylai staff ebostio'r Tîm Cyfathrebu.
- 4.8.2 Bydd y Swyddog Cyfathrebu a Chyfieithu'n penderfynu a ddylid anfon y gwaith cyfieithu allan ar gontract i wasanaeth cyfieithu allanol neu a ellir ei wneud yn fewnol.

## 5 Cwynion am y Safonau

- 5.1 Rwy'n croesawu cwynion am y modd rwy'n cydymffurfio â'r polisi hwn a Safonau'r Gymraeg, a defnyddiaf bob cwyn fel cyfle i ddysgu ac ysgogi gwelliant. Mae fy [mholisi](#) ar sut i wneud sylw neu gŵyn am ein gwasanaeth yn amlinellu sut y byddaf yn delio â chwynion am y modd rwy'n cydymffurfio â'r

Safonau.

- 5.2 Fe gadwaf gopi o unrhyw gŵyn ysgrifenedig a dderbyniaf ynglŷn â'r modd rwy'n cydymffurfio â'r Safonau yr wyf dan ddyletswydd i gydymffurfio â nhw. Cadwaf gopi hefyd, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, o'r nifer o gwynion a gefais ynglŷn â'r modd rwy'n cydymffurfio â'r Safonau.

## **6 Monitro ac Adrodd**

- 6.1 Byddaf yn cyflwyno adroddiad blynyddol am y modd rwy'n cydymffurfio â'r Safonau i Gomisiynydd y Gymraeg. Fe gyhoeddaf yr adroddiad hwn, ynglŷn â'r flwyddyn ariannol flaenorol, ar fy ngwefan erbyn 30 Medi bob blwyddyn.